# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

England & Wales · Charity number 1176181

## Details

| | |
|---|---|
| **Other names** | ABERYSTWYTH EVANGELICAL CHURCH |
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | CIO |
| **Registered** | 2017-12-08 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | 27 Penymorfa<br>Llangynnwr<br>Caerfyrddin<br>Sir Gaerfyrddin<br>SA31 2NP |
| **Phone** | 01970611392 |
| **Email** | gwyn.glenys@gmail.com |

## Activities

**Objects:** TO FURTHER THE CHRISTIAN FAITH IN ACCORDANCE WITH THE CHURCH'S CONFESSION OF FAITH, FOR THE BENEFIT OF THE PUBLIC MAINLY BUT NOT EXCLUSIVELY IN ABERYSTWYTH AND THE SURROUNDING AREAOTHER CHARITABLE OBJECTS WHICH IN THE OPINION OF THE TRUSTEES AND CHURCH MEMBERS ARE IN KEEPING WITH THE CHURCH'S WORK AND FOR THE PUBLIC BENEFIT.

**Activities:** Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol, yn bennaf ond nid yn unig ym mro Aberystwyth, trwy gynnal oedfaon addoli, pregethu Gair Duw, lledaenu'r efengyl gartref a thramor, annog pawb i fod yn oleuni a halen yn y gymdeithas, a chydweithio ag eglwysi a sefydliadau eraill sy'n arddel y ffydd efengylaidd. Ar ben hynny, hybu gweithgareddau elusennol sy'n unol ag amcanion yr Eglwys ac er budd y cyhoedd.

## Classification

- **How:** Makes Grants To Individuals, Provides Services
- **What:** Religious Activities
- **Who:** The General Public/mankind

Downloaded from opencharities.uk/ew/1176181

## Geography

- France
- Italy
- Slovenia
- Throughout Wales

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £70,296 | £62,583 | - | - |
| 2024-03-31 | £71,693 | £109,312 | - | - |
| 2023-03-31 | £69,334 | £54,359 | - | - |
| 2022-03-31 | £66,324 | £44,225 | - | - |
| 2021-03-31 | £65,690 | £72,269 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| CHRISTOPHER BRYAN LOCKLEY | | 2016-10-18 |
| Dr Rhun Emlyn | | 2023-03-02 |
| Ian David Taylor | | 2025-12-29 |
| PRYSOR MASON DAVIES | | 2016-10-18 |
| Parch DERRICK JOHN ADAMS | | 2015-01-01 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1176181

EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

England & Wales - Charity number 1176181

# Accounts

*EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH*

**ADRODDIAD BLYNYDDOL, EBRILL 2024 – MAWRTH 2025**

## 1. Amcanion yr Eglwys

(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn unol â Chyffes Ffydd yr Eglwys, er budd y cyhoedd yn bennaf ond nid yn unig yn Aberystwyth a'r cyffiniau.

(2) Amcanion elusennol eraill sydd, ym marn ymddiriedolwyr ac aelodau'r Eglwys, yn unol â gwaith yr Eglwys ac er budd y cyhoedd.

## 2. Cyflawni'r amcanion

Gan fod effeithiau Cofid-19 wedi cilio i raddau helaeth, roedd bywyd a gwaith yr Eglwys wedi gallu dychwelyd i batrwm mwy normal nag yn y blynyddoedd blaenorol. Anelwyd at gyflawni'r amcanion uchod, fel a ganlyn:

*(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol:*

A. Cyfarfodydd

Ers Ionawr 2022 mae'r Eglwys wedi bod yn cynnal cyfarfodydd y Sul yn Neuadd Llanfarian, ac ers Ebrill 2022 cynhelir cwrdd gweddi nos Fawrth yn Neuadd Waun Fawr.

Darparwyd amrywiaeth o gyfarfodydd:

- Ar y Sul cynhaliwyd oedfaon bore a hwyr, ar gyfer addoli, gweddïo, pregethu efengyl Iesu Grist, egluro neges y Beibl i bobl heddiw, a gweinyddu Swper yr Arglwydd. Darlledwyd yr oedfaon hyn dros y we er mwyn y rhai oedd yn methu bod yn bresennol a nifer o bobl o'r tu allan i gynulleidfa arferol yr Eglwys.
- Ar nos Fawrth cynhaliwyd amrywiaeth o gyfarfodydd: astudiaeth feiblaidd a chwrdd gweddi, gyda'r astudiaeth hefyd yn cael ei darlledu dros y we; cwrdd gweddi cenhadol; seiat agored; a chyrddau gweddi lleol mewn gwahanol gartrefi.
- Cynhaliwyd ysgol Sul i'r plant yn gyson cyn oedfa'r bore.
- Cynhaliwyd oedfaon ar y cyd ag Eglwys Alfred Place ddydd Nadolig a Gwener y Groglith, ac ar ambell achlysur arall.

- Wrth ddathlu'r Nadolig a'r Pasg defnyddiwyd gwefan yr Eglwys a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn darparu darlleniadau dyddiol ac eitemau eraill.
- Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch/Dysgwyr yn yr hydref.
- Adeg troi'r goleuadau Nadolig ymlaen cynhaliwyd stondin yng nghanol y dref.

B. Gofal bugeiliol

- Yn ystod y flwyddyn mae'r henuriaid wedi ceisio sicrhau gofal bugeiliol i bob un sy'n gysylltiedig â'r Eglwys, gan gynnwys y rhai hŷn a gwan eu hiechyd, ac wedi annog pawb i ofalu am ei gilydd yn eu gwahanol amgylchiadau. Fe'u cynorthwywyd yn y gwaith hwn gan y diaconiaid.
- Mae'r cyrddau gweddi lleol misol wedi bod yn gyfle i bobl yr Eglwys gwrdd mewn gwahanol gartrefi a mwynhau cymdeithas anffurfiol â'i gilydd.
- Darparwyd paned wedi oedfa'r bore er mwyn rhoi cyfle i bobl gymdeithasu â'i gilydd.
- Cynhaliwyd picnic Eglwys ar Sul cyntaf pob mis. Roedd yr achlysur hwn hefyd yn gyfle buddiol i hybu perthynas rhwng pobl.
- Gan fod yr Eglwys yn cwrdd yn Neuadd Llanfarian, trefnwyd lifftiau i'r rhai sydd heb eu cludiant eu hunain.
- Yn fisol ar nos Iau cynhaliwyd 'Noson Hwyl' dros Zoom er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r gynulleidfa fwynhau egwyl ysgafn yng nghwmni ei gilydd. Calondid oedd gweld nifer o rai sy'n dysgu Cymraeg yn ymuno â'r Noson Hwyl, er nad oes ganddynt gysylltiad ffurfiol â'r Eglwys fel y cyfryw.
- Nid oedd yn bosibl cynnal parti Nadolig i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys oherwydd tywydd stormus.
- Cynhaliwyd prynhawn gweithgareddau ym mis Mehefin i bobl yr Eglwys ac eraill.

C. Cefnogaeth i waith yr Efengyl yn ehangach

- Gwahoddwyd pregethwyr o eglwysi eraill ledled Cymru i arwain oedfaon. Roedd eu parodrwydd yn hyn o beth yn gyfrwng i gefnogi a meithrin cysylltiadau â'r eglwysi hyn.
- Bu nifer o aelodau'r Eglwys yn pregethu mewn eglwysi eraill ar hyd a lled Cymru.
- Cafwyd cydweithio cadarnhaol ag Eglwys Saesneg y Bedyddwyr Alfred Place.

- Cefnogodd yr Eglwys waith cenhadon yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cymru | 2 |
| Ffrainc | 1 |
| Slofenia | 1 |

  Cyfrannwyd at gynhaliaeth y cenhadon hyn, a hefyd at gynhaliaeth rhywun sy'n mentora arweinwyr eglwysi yn nwyrain Ewrop. (Dros flynyddoedd lawer bu'r Eglwys hefyd yn cefnogi rhywun a fu'n ceisio cymodi pobloedd a brofodd wrthdaro ethnig; daeth y trefniant i ben yn ystod y cyfnod dan sylw oherwydd i'r person ymddeol o'r gwaith hwn.) Dosbarthwyd llythyrau newyddion gan y cenhadon uchod a chafwyd ymweliadau gan nifer ohonynt er mwyn iddynt sôn am eu gwaith.
- Anfonwyd cefnogaeth ariannol hefyd at nifer o fudiadau sy'n hyrwyddo'r Efengyl Gristnogol ac achosion elusennol, fel a ganlyn:

  Blythswood Care
  Plas Lluest (i bobl sydd ag anawsterau dysgu)
  Open Doors (cynorthwyo Cristnogion sy'n cael eu herlid)

Anogwyd yr aelodau i gyfrannu at y symiau a roddwyd. Cyfrannwyd hefyd at gostau ymgyrch efengylu Undeb Cristnogol ac Undeb Cristnogol Cymraeg Prifysgol Aberystwyth.

- Mae person o'r Eglwys yn ymweld ag ysgol leol yn gyson mewn cysylltiad â chynllun Agor y Llyfr.
- Cynhaliwyd cyfarfod i glywed am fwriad plannu eglwys newydd yn Llŷn.

*(2) Amcanion elusennol eraill*

- Parhawyd i noddi bachgen 16 oed yn Cenia, gan helpu darparu bwyd, addysg, a chymorth meddygol, trwy gyfrwng CompassionUK,
- Bu rhai o bobl yr Eglwys yn gyfrifol am ddarparu blychau Nadolig i'w hanfon at blant anghenus mewn gwledydd tramor.
- Ers Mai 2022 mae'r Eglwys wedi anfon cyfraniad ariannol misol at y Banc Bwyd lleol.
- Cynhaliodd yr Eglwys gyfres o gyfarfodydd misol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Hefyd bu defnydd cyson o offer cyfieithu-ar-y-pryd yn oedfaon y Sul er mwyn y rhai nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg.
- Mae nifer o achosion elusennol wedi eu cynnwys ymhlith y mudiadau a gefnogwyd yn ariannol gan yr Eglwys (gweler uchod).

*(3) Materion eraill*

A. Strwythur

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, mae gan yr Eglwys strwythur syml ond effeithiol:

- Mae tri henuriad (gan gynnwys gweinidog yr Eglwys), sy'n anelu at gwrdd yn fisol i drafod materion sy'n ymwneud yn bennaf â bywyd ysbrydol yr Eglwys.
- Ar ddechrau'r cyfnod roedd gan yr Eglwys hefyd bedwar diacon, a'r rheini'n cwrdd â'r henuriaid yn fisol mewn Cwrdd Swyddogion er mwyn trafod agweddau ymarferol ar fywyd a gwaith yr Eglwys. Yn ystod y flwyddyn ymddiswyddodd un o'r diaconiaid oherwydd pwysau gwaith, ac un arall oherwydd symud o Aberystwyth. Dechreuwyd trafod penodi henuriad a diaconiaid newydd.
- Cynhelir Cwrdd Eglwys nifer o weithiau mewn blwyddyn er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau drafod bywyd a gwaith yr Eglwys. Yn ystod y cyfnod dan sylw cynhaliwyd Cyrddau Eglwys ar 9 Gorffennaf 2024, 19 Tachwedd 2024 (Cyfarfod Blynyddol), a 25 Mawrth 2025. Yn ogystal cynhaliwyd Cwrdd Aelodau ar 18 Chwefror 2025 i roi sylw penodol i fater chwilio am weinidog newydd ymhen amser (gweler isod).
- Mae'r Cwrdd Swyddogion a'r Cwrdd Eglwys yn rhoi sylw manwl i sefyllfa ariannol yr Eglwys. Rhan o'u gwaith yw cymeradwyo'r cyfrifon ariannol, gan sicrhau fod y rhain wedi eu cadw'n foddhaol a bod arian wedi ei wario'n briodol yn unol ag amcanion yr Eglwys.
- Mae'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yn cael eu dilysu'n swyddogol er mwyn cwrdd â gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwarchod. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd polisi diogelu plant ac fe'i dosbarthwyd i bawb.
- Er 8 Rhagfyr 2017 mae'r Eglwys wedi ei chofrestru'n elusen gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1176181). Yn unol â'r amodau o fod yn elusen, yr henuriaid a'r diaconiaid yw ymddiriedolwyr yr elusen.
- Mae gan yr Eglwys wefan swyddogol sy'n darparu gwybodaeth amdani a'i gweithgareddau (egefaber.org). I'r un diben mae ganddi hefyd gyfrif X (Trydar gynt).

B. Cyhoeddiadau

- Ers Chwefror 2022 mae *Cwlwm* yn cael ei gyhoeddi ar ei newydd wedd, sef taflen fisol sy'n cynnwys neges gan yr henuriaid, newyddion am yr Eglwys a'r bobl sy'n gysylltiedig â hi, a threfniadau pregethu. Fe'i hanfonir at bawb hefyd ar ffurf ddigidol.

- Dosbarthwyd cardiau gwahodd yn Llanfarian adeg y Nadolig a'r Pasg, ac mewn cysylltiad â'r Cwrdd Diolchgarwch. Hefyd dosbarthwyd dau rifyn o *Cwlwm Cymunedol* yn Llanfarian.
- Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd cynnwys manylion yn gyson am oedfaon yr Eglwys yn y *Cambrian News*.

**3. Cloi**

Yn ystod y cyfnod dan sylw gwelwyd rhywfaint o gynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu'r oedfaon. Derbyniwyd dau aelod newydd, ond collwyd dau aelod a'u teulu oherwydd iddynt symud o Aberystwyth. Roedd yn galondid sylwi ar nifer y rhai sy'n gwylio oedfaon yr Eglwys ar y we, gan gynnwys pobl nad ydynt yn arfer mynychu'r Eglwys fel y cyfryw.

Mae diwedd cyfnod yr adroddiad hwn yn garreg filltir yn hanes gweinidog yr Eglwys, gan ei fod ar fin cyrraedd oed ymddeol. Dymuna ddiolch am yr holl gefnogaeth a chymorth a dderbyniodd ers dod yn weinidog yn 2007. Dechreuwyd ar broses chwilio am rywun i gymryd ei le, ond mae'r Eglwys yn falch iawn ei fod yn barod i barhau fel gweinidog rhan-amser am y tro.

Dymuna'r ymddiriedolwyr ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys am eu cymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Tystiant fod y cyfrifon i gyd yn gywir, a bod adnoddau ariannol yr Eglwys wedi eu defnyddio'n ddoeth ac yn gywir yn unol â'i hamcanion. Cymeradwyant weledigaeth yr Eglwys, ac edrychant ymlaen at hyrwyddo'i gwaith a'i thystiolaeth i'r dyfodol.

Llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr:

Derrick Adams 18/11/ 2025

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025**

## Mantolen Cyfrif 1

| INCWM | £ | GWARIANT | | £ |
|---|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2024 | 5,483.10 | | | |
| Casgliadau Sul | 1,311.52 | Pregethu | | -1,843.00 |
| Rhoddion Cymorth | 40,012.00 | Cylchgronau | | -265.40 |
| Eraill (Banc) | 20,405.00 | Cyflog | | -33,965.82 |
| Cyfrif Cadw | 80,000.00 | Costau Derrick | | -100.00 |
| Ad-daliad | 8,567.27 | Pensiwn | | -6,191.31 |
| | | Cenhadon | | |
| | | | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| | | | - Rhiannon Lloyd | -750.00 |
| | | | - Rebecca Hughes (UFM) | -750.00 |
| | | | - Mike Adams | -750.00 |
| | | Costau Cyson | | |
| | | | - Neuadd Waunfawr | -24.00 |
| | | | - Cyfrif Adeilad | -325.00 |
| | | | - Cyfrif Cadw | -325.00 |
| | | | - Banc Bwyd | -450.00 |
| | | | - Compassion | -384.00 |
| | | | - Neuadd Llanfarian | -3,395.00 |
| | | | - Yswiriant | -500.05 |
| | | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -170.00 |
| | | | - Costau Wefan | -69.00 |
| | | Amrywiol | | |
| | | | - Cyfieithu "Good news for Everyone" | -500.00 |
| | | | - Undeb Cristnogol | -200.00 |
| | | | - Amrywiol | -535.00 |
| | | | - Cyfraniad Gwersyll | -1,400.00 |
| | | | - Posteri a Chardiau | -213.57 |
| | | | - Hysbysebion | -121.00 |
| | | | - Tabernacl Penthydeudraeth | -500.00 |
| | | | - Costau Nadolig Maes Gwenfrewi | -850.00 |
| | | | - Costau Zoom | -155.88 |
| | | Casgliadau Arbennig | | |
| | | | - Plas Lluest | -500.00 |
| | | | - Mudiad Efengylaidd Cymru | -1,250.00 |
| | | | - Open Doors | -500.00 |
| | | | - Blythswood | -500.00 |
| | | | - Bryn y Groes | -500.00 |
| | | | - Plas Lluest | -500.00 |
| | | | - Y Gorlan | -500.00 |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2025 | | -93,195.86 |
| | **155,778.89** | | | **-155,778.89** |

Tanrallt,
Penbontrhydybeddau,
Ceredigion,
SY23 3EZ

10/01/2026

Dear Sirs,

As requested, I have reviewed the accounts for Eglwys Efengylaidd Aberystwyth for the period 1st April 2024 – 31st March 2025. The accounts appear to be well kept and in good order.

I hope this is of assistance to you.

Yours sincerely,

P. M. Jones

Patience Jones

# Accounts

*EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH*

**ADRODDIAD BLYNYDDOL, EBRILL 2023 – MAWRTH 2024**

**1. Amcanion yr Eglwys**

(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn unol â Chyffes Ffydd yr Eglwys, er budd y cyhoedd yn bennaf ond nid yn unig yn Aberystwyth a'r cyffiniau.

(2) Amcanion elusennol eraill sydd, ym marn ymddiriedolwyr ac aelodau'r Eglwys, yn unol â gwaith yr Eglwys ac er budd y cyhoedd.

**2. Cyflawni'r amcanion**

Yn ystod y flwyddyn hon llwyddwyd i ailafael mewn llawer o agweddau ar fywyd a gwaith yr Eglwys a effeithiwyd gan Cofid-19. O ganlyniad gwnaethpwyd ymdrech deg i gyflawni'r amcanion uchod, fel a ganlyn:

(1) *Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol:*

A. Cyfarfodydd

Ers Ionawr 2022 mae'r Eglwys wedi bod yn cynnal cyfarfodydd y Sul yn Neuadd Llanfarian, ac ers Ebrill 2022 cynhelir cwrdd gweddi nos Fawrth yn Neuadd Waun Fawr.

Llwyddwyd i ddarparu amrywiaeth o gyfarfodydd:

- Oedfaon ar y Sul, bore a hwyr, ar gyfer addoli, gweddïo, pregethu Efengyl Iesu Grist, egluro neges y Beibl i bobl heddiw, a gweinyddu Swper yr Arglwydd. Parhawyd i ddarlledu'r oedfaon hyn dros y we er mwyn y rhai oedd yn methu bod yn bresennol a nifer o bobl o'r tu allan i gynulleidfa arferol yr Eglwys.
- Ar nos Fawrth cynhaliwyd amrywiaeth o gyfarfodydd: astudiaeth feiblaidd a chwrdd gweddi, gyda'r astudiaeth hefyd yn cael ei darlledu dros y we; cwrdd gweddi cenhadol; seiat agored; a chyrddau gweddi lleol mewn gwahanol gartrefi.
- Cynhaliwyd ysgol Sul i'r plant yn gyson cyn oedfa'r bore.
- Cynhaliwyd oedfaon ar y cyd ag Eglwys Alfred Place ddydd Nadolig a Gwener y Groglith, ac ar ambell achlysur arall.
- Wrth ddathlu'r Nadolig a'r Pasg defnyddiwyd gwefan yr Eglwys a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn darparu darlleniadau dyddiol ac eitemau eraill. Trefnwyd i blant ysgolion cynradd lleol beintio modelau'n gysylltiedig â'r Nadolig; fe'u gosodwyd ym Mharc Gwenfrewi er mwyn i aelodau o'r cyhoedd eu gweld, a daeth nifer o gynghorwyr lleol i agoriad swyddogol yr arddangosfa.
- Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yn yr hydref, a Chwrdd i Ddysgwyr yn y gwanwyn.

B. Gofal bugeiliol

- Mae'r henuriaid yn ceisio sicrhau gofal bugeiliol i bob un sy'n gysylltiedig â'r Eglwys, gan gynnwys y rhai hŷn a gwan eu hiechyd, ac yn annog pawb i ofalu am ei gilydd yn eu gwahanol amgylchiadau. Fe'u cynorthwyir yn y gwaith hwn gan y diaconiaid.

- Mae'r cyrddau gweddi lleol misol yn gyfle i bobl yr Eglwys gwrdd mewn gwahanol gartrefi a mwynhau cymdeithas anffurfiol â'i gilydd.
- Darperir paned wedi oedfa'r bore er mwyn rhoi cyfle i bobl gymdeithasu â'i gilydd. Yn ystod y flwyddyn hefyd dechreuwyd cynnal picnic Eglwys ar Sul cyntaf pob mis.
- Gan fod yr Eglwys bellach yn cwrdd yn Neuadd Llanfarian, trefnir lifftiau i'r rhai sydd heb eu cludiant eu hunain.
- Yn fisol ar nos Iau cynhaliwyd 'Noson Hwyl' dros Zoom er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r gynulleidfa fwynhau egwyl ysgafn yng nghwmni ei gilydd. Calondid oedd gweld nifer o rai sy'n dysgu Cymraeg yn ymuno â'r Noson Hwyl, er nad oes ganddynt gysylltiad ffurfiol â'r Eglwys fel y cyfryw.
- Fel arfer cynhelir parti Nadolig i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys, ond nid oedd yn bosibl gwneud hyn y tro yma oherwydd achosion o Cofid-19 mewn nifer o bobl.

C. Cefnogaeth i waith yr Efengyl yn ehangach

- Gwahoddwyd pregethwyr o eglwysi eraill ledled Cymru i arwain oedfaon. Roedd eu parodrwydd yn hyn o beth yn gyfrwng i gefnogi a meithrin cysylltiadau â'r eglwysi hyn.
- Bu nifer o aelodau'r Eglwys yn pregethu mewn eglwysi eraill ar hyd a lled Cymru
- Cafwyd cydweithio cadarnhaol ag Eglwys Saesneg y Bedyddwyr Alfred Place.
- Ym mai Medi bu'r Eglwys yn gwrando trwy Zoom ar anerchiad Emyr James (Caerdydd) yn Fforwm Arweinyddiaeth Cymru yn lle'r cwrdd arferol ar nos Fawrth.
- Cefnogodd yr Eglwys waith cenhadon yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill fel a ganlyn:

  | | |
  |---|---|
  | Cymru | 2 |
  | Ffrainc | 1 |
  | Slofenia | 1 |
  | Iwerddon | 1 |

  Cyfrannodd at gynhaliaeth y cenhadon hyn, a hefyd at gynhaliaeth dau berson sy'n ceisio cadw cysylltiad cyson â gwahanol wledydd er mwyn hybu'r Efengyl Gristnogol, y naill yn mentora arweinwyr eglwysi yn nwyrain Ewrop a'r llall yn ceisio cymodi pobloedd sydd wedi profi gwrthdaro ethnig. Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd llythyrau newyddion gan y cenhadon hyn a chafwyd cyfle i siarad â nifer ohonynt er mwyn cael gwybod am eu gwaith a'u holi am eu cynlluniau i'r dyfodol.
- Trefnwyd cefnogaeth ariannol i nifer o fudiadau sy'n hyrwyddo'r Efengyl Gristnogol ac achosion elusennol, fel a ganlyn:

  Y Gorlan (gwaith yn yr Eisteddfod)
  Blythswood Care
  Plas Lluest (i bobl sydd ag anawsterau dysgu)
  Open Doors (cynorthwyo Cristnogion sy'n cael eu herlid)

Anogwyd yr aelodau i gyfrannu at y symiau a roddwyd. Cyfrannwyd hefyd at gostau ymgyrch efengylu Undeb Cristnogol Prifysgol Loughborough.

- Mae person o'r Eglwys yn ymweld ag ysgol leol yn gyson mewn cysylltiad â chynllun Agor y Llyfr.

(2) *Amcanion elusennol eraill*

- Parhawyd i noddi bachgen 15 oed yn Cenia, gan helpu darparu bwyd, addysg, a chymorth meddygol, trwy gyfrwng CompassionUK,
- Bu rhai o bobl yr Eglwys yn gyfrifol am ddarparu blychau Nadolig i'w hanfon at blant anghenus mewn gwledydd tramor.
- Ers Mai 2022 mae'r Eglwys wedi anfon cyfraniad ariannol misol at y Banc Bwyd lleol.
- Yn ystod y flwyddyn ailgydiwyd yn y cyfarfodydd misol i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg, gan gwrdd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ar ben hynny, mae defnydd cyson o offer cyfieithu-ar-y-pryd yn oedfaon y Sul er mwyn y rhai nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg.
- Mae nifer o achosion elusennol wedi eu cynnwys yn ymhlith y mudiadau a gefnogwyd yn ariannol gan yr Eglwys (gweler uchod). Yn ogystal, yn sgîl y Cwrdd Diolchgarwch rhoddwyd cyfraniad at waith dyngarol Hwb Penparcau yn Wcráin.

(3) *Materion eraill*

A. Strwythur

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, mae gan yr Eglwys strwythur syml ond effeithiol:

- Mae tri henuriad (gan gynnwys gweinidog yr Eglwys), sy'n anelu at gwrdd yn fisol i drafod materion sy'n ymwneud yn bennaf â bywyd ysbrydol yr Eglwys.
- Mae gan yr Eglwys hefyd bedwar diacon, sy'n cwrdd â'r henuriaid yn fisol mewn Cwrdd Swyddogion er mwyn trafod agweddau ymarferol ar fywyd a gwaith yr Eglwys.
- Cynhelir Cwrdd Eglwys nifer o weithiau mewn blwyddyn er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau drafod bywyd a gwaith yr Eglwys. Yn ystod y cyfnod dan sylw cynhaliwyd Cyrddau Eglwys ar 11 Gorffennaf 2023, 28 Tachwedd 2023 (Cyfarfod Blynyddol), a 26 Mawrth 2024.
- Mae'r Cwrdd Swyddogion a'r Cwrdd Eglwys yn rhoi sylw manwl i sefyllfa ariannol yr Eglwys. Rhan o'u gwaith yw cymeradwyo'r cyfrifon ariannol, gan sicrhau fod y rhain wedi eu cadw'n foddhaol a bod arian wedi ei wario'n briodol yn unol ag amcanion yr Eglwys.
- Mae'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yn cael eu dilysu'n swyddogol er mwyn cwrdd â gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwarchod. Yn ystod y flwyddyn lluniwyd polisi diogelu plant.
- Er 8 Rhagfyr 2017 mae'r Eglwys wedi ei chofrestru'n elusen gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1176181). Yn unol â'r amodau o fod yn elusen, yr henuriaid a'r diaconiaid yw ymddiriedolwyr yr elusen.
- Mae gan yr Eglwys wefan swyddogol sy'n darparu gwybodaeth amdani a'i gweithgareddau (egefaber.org). I'r un diben mae ganddi hefyd gyfrif X (Trydar gynt).

B. Cyhoeddiadau

- Ers Chwefror 2022 mae *Cwlwm* yn cael ei gyhoeddi ar ei newydd wedd, sef taflen fisol sy'n cynnwys neges gan yr henuriaid, newyddion am yr Eglwys a'r bobl sy'n gysylltiedig â hi, a threfniadau pregethu. Fe'i ceir hefyd ar ffurf ddigidol.
- Dosbarthwyd cardiau gwahodd yn Llanfarian adeg y Nadolig a'r Pasg, ac mewn cysylltiad â'r Cwrdd Diolchgarwch.

## 3. Cloi

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy’n mynychu’r oedfaon, a derbyniwyd pedwar aelod newydd. Roedd hefyd yn galondid sylwi ar nifer y rhai sy’n gwylio oedfaon yr Eglwys ar y we, gan gynnwys pobl nad ydynt yn arfer mynychu’r Eglwys fel y cyfryw.

Dymuna’r ymddiriedolwyr ddiolch i bawb sy’n gysylltiedig â’r Eglwys am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Tystiant fod y cyfrifon i gyd yn gywir, a bod adnoddau ariannol yr Eglwys wedi eu defnyddio’n ddoeth ac yn gywir yn unol â’i hamcanion. Cymeradwyant weledigaeth yr Eglwys, ac edrychant ymlaen at hyrwyddo’i gwaith a’i thystiolaeth i’r dyfodol.

Llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr:

Derrick Adams XXXXXXXXX 2024

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

### Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024

### Mantolen Cyfrif 1

| INCWM | £ | GWARIANT | | £ |
|---|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2023 | 43,102.06 | | | |
| Casgliadau Sul | 2,445.00 | Pregethu | | -1,231.50 |
| Cylchgronau | 52.60 | Cylchgronau | | -235.40 |
| Rhoddion Cymorth | 30,678.73 | Cyflog | | -30,634.43 |
| Eraill (Banc) | 22,432.43 | Costau Derrick | | -330.00 |
| Casgliadau Arbennig | 1,383.30 | Pensiwn | | -4,095.24 |
| Ad-daliad | 14,700.92 | Cenhadon | | |
| | | | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| | | | - Esyllt Roberts | -4,500.00 |
| | | | - Emanuel & Esther Durand | -750.00 |
| | | | - Dafydd Job | -750.00 |
| | | | - Heledd Job | -750.00 |
| | | Costau Cyson | | |
| | | | - Neuadd Waunfawr | -1,084.00 |
| | | | - Cyfrif Adeilad | -275.00 |
| | | | - Cyfrif Cadw | -50,275.00 |
| | | | - Banc Bwyd | -450.00 |
| | | | - Compassion | -364.00 |
| | | | - Neuadd Llanfarian | -3,285.00 |
| | | | - Yswiriant | -500.05 |
| | | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -229.00 |
| | | | - Costau Wefan | -589.86 |
| | | Amrywiol | | |
| | | | - Y Gorlan | -500.00 |
| | | | - Parti Nadolig | -63.00 |
| | | | - Amrywiol | -733.08 |
| | | | - Cyfraniad Gwersyll | -500.00 |
| | | | - Posteri a Chardiau | -262.87 |
| | | | - Hysbysebion | -71.72 |
| | | | - Llyfrau | -295.84 |
| | | | - Costau Nadolig Maes Gwenfrewi | -980.57 |
| | | | - Costau Zoom | -143.88 |
| | | Casgliadau Arbennig | | |
| | | | - Y Gorlan | -500.00 |
| | | | - Eisteddfod | -332.50 |
| | | | - Open Doors | -500.00 |
| | | | - Blythswood | -500.00 |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2024 | | -5,483.10 |
| | **114,795.04** | | | **-114,795.04** |

Tanrallt
Penbontrhydybeddau
Ceredigion
SY23 3EZ

11/01/25

Dear Sirs

As requested, I have reviewed the accounts for the Eglwys Efengylaidd Aberystwyth for the period April 2023 – 31st March 2024. The accounts appear to be well kept and in good order.

I hope this is of assistance to you.

Yours sincerely

P.M. Jones

Patience Jones

EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

England & Wales - Charity number 1176181

# Accounts

*EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH*

**ADRODDIAD BLYNYDDOL, EBRILL 2022 – MAWRTH 2023**

## 1. Amcanion yr Eglwys

(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn unol â Chyffes Ffydd yr Eglwys, er budd y cyhoedd yn bennaf ond nid yn unig yn Aberystwyth a'r cyffiniau.

(2) Amcanion elusennol eraill sydd, ym marn ymddiriedolwyr ac aelodau'r Eglwys, yn unol â gwaith yr Eglwys ac er budd y cyhoedd.

## 2. Cyflawni'r amcanion

Er i rai o effeithiau Cofid-19 barhau i ddylanwadu ar fywyd yr Eglwys yn ystod 2022-23, mae'n dda adrodd i nifer o arwyddion mwy cadarnhaol a chalonogol ddod i'r golwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Llwyddwyd i gyflawni'r amcanion uchod yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:

(1) *Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol:*

A. Cyfarfodydd

Caewyd Canolfan Padarn, sef man cyfarfod yr Eglwys, ar ddechrau'r pandemig, ac roedd yn parhau i fod ar gau ddiwedd Mawrth 2023. Ers Ionawr 2022 mae'r Eglwys wedi bod yn cynnal cyfarfodydd y Sul yn Neuadd Llanfarian, ac ers Ebrill 2022 cynhelir cwrdd gweddi nos Fawrth yn Neuadd Waun Fawr.

Llwyddwyd i ddarparu amrywiaeth o gyfarfodydd:

- Oedfaon ar y Sul, bore a hwyr, ar gyfer addoli, gweddïo, pregethu Efengyl Iesu Grist, egluro neges y Beibl i bobl heddiw, a gweinyddu Swper yr Arglwydd. Parhawyd i ddarlledu'r oedfaon hyn dros y we er mwyn y rhai oedd yn methu bod yn bresennol a nifer o bobl o'r tu allan i gynulleidfa arferol yr Eglwys. Ym mis Mai penderfynwyd y dylai pawb sy'n mynychu'r cyfarfodydd fod yn rhydd i wisgo mwgwd neu beidio yn ôl eu dewis personol, ond parhawyd i osod cadeiriau ar yr ochrau i'r rheini oedd yn dymuno ymbellhau a sicrhau bwlch priodol rhwng rhesi'r canol.
- O Ebrill 2022 ymlaen dechreuwyd cynnal cwrdd gweddi wyneb yn wyneb eto bob nos Fawrth. Pan oedd astudiaeth feiblaidd yn rhan o'r cwrdd hwn fe ddarlledwyd yr astudiaeth dros y we hefyd ar gyfer y rhai oedd yn methu bod yn bresennol. Ym mis Medi ailddechreuwyd cynnal cyrddau gweddi lleol yn fisol mewn gwahanol gartrefi.
- O fis Mai 2022 ymlaen dechreuwyd cynnal ysgol Sul i'r plant eto.
- Cynhaliwyd oedfaon gydag Eglwys Alfred Place noson Nadolig a bore Gwener y Groglith.
- Wrth ddathlu'r Nadolig a'r Pasg defnyddiwyd gwefan yr Eglwys a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn darparu darlleniadau dyddiol ac eitemau eraill.
- Yn yr haf bedyddiwyd dau o bobl ifainc yr Eglwys yn y môr.

B. Gofal bugeiliol

- Mae'r henuriaid yn ceisio sicrhau gofal bugeiliol i bob un sy'n gysylltiedig â'r Eglwys, gan gynnwys y rhai hŷn a gwan eu hiechyd, ac yn annog pawb i ofalu am ei gilydd yn eu gwahanol amgylchiadau. Fe'u cynorthwyir yn y gwaith hwn gan y diaconiaid.
- Mae'r cyrddau gweddi lleol misol yn gyfle i bobl yr Eglwys gwrdd mewn gwahanol gartrefi a mwynhau cymdeithas anffurfiol â'i gilydd.
- Ym mis Medi dechreuwyd darparu paned wedi oedfa'r bore er mwyn rhoi cyfle i bobl gymdeithasu â'i gilydd.
- Gan fod yr Eglwys bellach yn cwrdd yn Neuadd Llanfarian, trefnir lifftiau i'r rhai sydd heb eu cludiant eu hunain.
- Yn fisol ar nos Iau cynhaliwyd 'Noson Hwyl' dros Zoom er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r gynulleidfa fwynhau egwyl ysgafn yng nghwmni ei gilydd. Calondid oedd gweld nifer o rai sy'n dysgu Cymraeg yn ymuno â'r Noson Hwyl, er nad oes ganddynt gysylltiad ffurfiol â'r Eglwys fel y cyfryw.
- Cynhaliwyd parti Nadolig i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys.

C. Cefnogaeth i waith yr Efengyl yn ehangach

- Gwahoddwyd pregethwyr o eglwysi eraill ledled Cymru i arwain oedfaon. Roedd eu parodrwydd yn hyn o beth yn gyfrwng i gefnogi a meithrin cysylltiadau â'r eglwysi hyn.
- Bu nifer o aelodau'r Eglwys yn pregethu mewn eglwysi eraill ar hyd a lled Cymru
- Cafwyd cydweithio cadarnhaol ag Eglwys Saesneg y Bedyddwyr Alfred Place, gan gynnwys nifer o oedfaon ar y cyd.
- Pan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ym mis Awst, cydlynwyd ymweliadau gan bobl yr Eglwys er mwyn cefnogi gwaith Mudiad Efengylaidd Cymru yno.
- Manteisiwyd ar y cyfle i wylio cyflwyniad Zoom gan Fforwm Arweinyddiaeth Cymru, ynghyd â fideos yn gysylltiedig â mudiad '*A Passion for Life*'.
- Cefnogodd yr Eglwys waith cenhadon yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill fel a ganlyn:

  | | |
  |---|---|
  | Cymru | 1 |
  | Ffrainc | 1 |
  | Slofenia | 1 |
  | Iwerddon | 1 |

  Cyfrannodd at gynhaliaeth y cenhadon hyn, a hefyd at gynhaliaeth dau berson sy'n ceisio cadw cysylltiad cyson â gwahanol wledydd er mwyn hybu'r Efengyl Gristnogol, y naill yn mentora arweinwyr eglwysi yn nwyrain Ewrop a'r llall yn ceisio cymodi pobloedd sydd wedi profi gwrthdaro ethnig. Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd llythyrau newyddion gan y cenhadon hyn a chafwyd cyfle i siarad â nifer ohonynt er mwyn cael gwybod am eu gwaith a'u holi am eu cynlluniau i'r dyfodol.
- Ailsefydlwyd trefn cynnal casgliadau ariannol i gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Efengyl Gristnogol ac achosion elusennol. a ganlyn:

  European Mission Fellowship (gwaith yn Wcráin)
  Canolfan Gristnogol Bryn-y-groes
  Plas Lluest (i bobl sydd ag anawsterau dysgu)
  Dioddefwyr y daeargryn yn Nhwrci a Syria

(2) *Amcanion elusennol eraill*

- Parhawyd i noddi bachgen 14 oed yn Cenia, gan helpu darparu bwyd, addysg, a chymorth meddygol, trwy gyfrwng CompassionUK,
- Bu rhai o bobl yr Eglwys yn gyfrifol am ddarparu blychau Nadolig i'w hanfon at blant anghenus mewn gwledydd tramor.
- Ers Mai 2022 mae'r Eglwys wedi anfon cyfraniad ariannol misol at y Banc Bwyd lleol.
- Yn ystod y flwyddyn ailgydiwyd yn y cyfarfodydd misol i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg, gan gwrdd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ar ben hynny, mae defnydd cyson o offer cyfieithu-ar-y-pryd yn oedfaon y Sul er mwyn y rhai nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg.

(3) *Materion eraill*

A. Strwythur

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, mae gan yr Eglwys strwythur syml ond effeithiol:

- Mae tri henuriad (gan gynnwys gweinidog yr Eglwys), sy'n anelu at gwrdd yn fisol i drafod materion sy'n ymwneud yn bennaf â bywyd ysbrydol yr Eglwys.
- Yn ystod y flwyddyn ymddeolodd un diacon a phenodwyd tri diacon newydd. Mae'r diaconiaid yn cwrdd â'r henuriaid yn fisol mewn Cwrdd Swyddogion er mwyn trafod agweddau ar fywyd a gwaith yr Eglwys. Bu rhai o'r cyfarfodydd hyn dros Zoom.
- Cynhelir Cwrdd Eglwys nifer o weithiau mewn blwyddyn er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau drafod bywyd a gwaith yr Eglwys. Yn ystod y cyfnod dan sylw cynhaliwyd Cyrddau Eglwys ar 12 Gorffennaf 2022, 22 Tachwedd 2022 (Cyfarfod Blynyddol), a 7 Mawrth 2023.
- Mae'r Cwrdd Swyddogion a'r Cwrdd Eglwys yn rhoi sylw manwl i sefyllfa ariannol yr Eglwys. Rhan o'u gwaith yw cymeradwyo'r cyfrifon ariannol, gan sicrhau fod y rhain wedi eu cadw'n foddhaol a bod arian wedi ei wario'n briodol yn unol ag amcanion yr Eglwys.
- Mae'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yn cael eu dilysu'n swyddogol er mwyn cwrdd â gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwarchod.
- Er 8 Rhagfyr 2017 mae'r Eglwys wedi ei chofrestru'n elusen gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1176181). Yn unol â'r amodau o fod yn elusen, yr henuriaid a'r diaconiaid yw ymddiriedolwyr yr elusen.
- Mae gan yr Eglwys wefan swyddogol sy'n darparu gwybodaeth amdani a'i gweithgareddau (egefaber.org). I'r un diben mae ganddi hefyd gyfrif Trydar.

B. Cyhoeddiadau

- Ers Chwefror 2022 mae *Cwlwm* yn cael ei gyhoeddi ar ei newydd wedd, sef taflen fisol sy'n cynnwys neges gan yr henuriaid, newyddion am yr Eglwys a'r bobl sy'n gysylltiedig â hi, a threfniadau pregethu. Fe'i ceir hefyd ar ffurf ddigidol.
- Dosbarthwyd cardiau gwahodd yn Llanfarian yn y gwanwyn, ac eto cyn y Nadolig.
- Dosbarthwyd copïau o *Holi* yn ardaloedd Llanfarian a Phenrhyn-coch adeg y Nadolig.

CH. Cloi

Gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu'r oedfaon. Symudodd dau aelod i eglwys arall, ond derbyniwyd chwe aelod newydd. Roedd hefyd yn

galondid sylwi ar nifer y rhai sy'n gwylio oedfaon yr Eglwys ar y we, gan gynnwys pobl nad ydynt yn arfer mynychu'r Eglwys fel y cyfryw.

Wedi'r cyfyngiadau clo daethpwyd i werthfawrogi o'r newydd bwysigrwydd cydaddoli, cymdeithasu wyneb yn wyneb, annog ein gilydd, a gofalu am y rhai unig ac anghenus. Profwyd llawer o anogaethau, a bu gwerthfawrogi cyffredinol o'r ddarpariaeth yn yr amgylchiadau anarferol.

Dymuna'r ymddiriedolwyr ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Tystiant fod y cyfrifon i gyd yn gywir, a bod adnoddau ariannol yr Eglwys wedi eu defnyddio'n ddoeth ac yn gywir yn unol â'i hamcanion. Cymeradwyant weledigaeth yr Eglwys, ac edrychant ymlaen at hyrwyddo'i gwaith a'i thystiolaeth i'r dyfodol.

Llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr:

Derrick Adams 14 Tachwedd 2023

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023**

**Pob Cyfrif**

**INCWM**

| | £ |
|---|---|
| Casgliadau Sul | 6,845.00 |
| Cylchgronau | 313.47 |
| Rhoddion Cymorth | 31,917.00 |
| Eraill (Banc) | 18,395.00 |
| Casgliadau Arbennig | 1,339.00 |
| Rhoddion Cymorth – Casgliadau Arbennig | 1,125.00 |
| Cyfrif Cadw | 2,600.00 |
| Ad-daliad | 6,799.37 |
| Llog (Cyfrif 2 a 3) | 237.22 |
| | **69,571.06** |

**GWARIANT**

| | £ |
|---|---|
| Pregethu | -1,220.00 |
| Cylchgronau | -718.80 |
| Cyflog | -27,387.90 |
| Costau Derrick | -310.00 |
| Pensiwn | -4,366.08 |
| Cenhadon | |
| - Lydia Adams | -3,600.00 |
| - Rhiannon Lloyd | -600.00 |
| - Mike Adams | -600.00 |
| - Emanuel & Esther Durand | -600.00 |
| - Dafydd Job | -600.00 |
| - Heledd Job | -735.00 |
| Costau Cyson | |
| - Neuadd Llanfarian | -3,140.00 |
| - Neuadd Buarth | -132.00 |
| - Cyfrif Adeilad | -300.00 |
| - Cyfrif Cadw | -300.00 |
| - Jubilee Storehouse | -450.00 |
| - Compassion | -336.00 |
| - Neuadd Waunfawr | -1,320.00 |
| - Yswiriant | -500.06 |
| - Hawlfraint cerddoriaeth | -214.00 |
| - Technoleg | -575.86 |
| - Disclosure Services | -88.40 |
| Amrywiol | |
| - Cyfraniad Gwersyll | -200.00 |
| - Gweithgareddau Nadolig | -61.22 |
| - Costau Cymun | -74.98 |
| - Amrywiol | -22.99 |
| Casgliadau Arbennig | |
| - MEC Eisteddfod | -1,000.00 |
| - EMF Ukraine Appeal | -2,000.00 |
| - Mount Elim Pontdawe Building Fund | -1,000.00 |
| - MEC Bryn y Groes | -800.00 |
| - Tearfund Turkey/Syria Earthquake | -606.00 |
| - Plas Lluest | -500.00 |
| | **-54,359.29** |

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

## Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023

## Mantolen Cyfrif 1

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2022 | 28,507.51 | | |
| Casgliadau Sul | 6,845.00 | Pregethu | -1,220.00 |
| Cylchgronau | 313.47 | Cylchgronau | -718.80 |
| Rhoddion Cymorth | 31,917.00 | Cyflog | -27,387.90 |
| Eraill (Banc) | 18,395.00 | Costau Derrick | -310.00 |
| Casgliadau Arbennig | 1,339.00 | Pensiwn | -4,366.08 |
| Rhoddion Cymorth – Casgliadau Arbennig | 1,125.00 | | |
| Cyfrif Cadw | 2,600.00 | Cenhadon | |
| Ad-daliad | 6,799.37 | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| | | - Rhiannon Lloyd | -600.00 |
| | | - Mike Adams | -600.00 |
| | | - Emanuel & Esther Durand | -600.00 |
| | | - Dafydd Job | -600.00 |
| | | - Heledd Job | -735.00 |
| | | Costau Cyson | |
| | | - Neuadd Llanfarian | -3,140.00 |
| | | - Neuadd Buarth | -132.00 |
| | | - Cyfrif Adeilad | -300.00 |
| | | - Cyfrif Cadw | -300.00 |
| | | - Jubilee Storehouse | -450.00 |
| | | - Compassion | -336.00 |
| | | - Neuadd Waunfawr | -1,320.00 |
| | | - Yswiriant | -500.06 |
| | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -214.00 |
| | | - Technoleg | -575.86 |
| | | - Disclosure Services | -88.40 |
| | | Amrywiol | |
| | | - Cyfraniad Gwersyll | -200.00 |
| | | - Gweithgareddau Nadolig | -61.22 |
| | | - Costau Cymun | -74.98 |
| | | - Amrywiol | -22.99 |
| | | Casgliadau Arbennig | |
| | | - MEC Eisteddfod | -1,000.00 |
| | | - EMF Ukraine Appeal | -2,000.00 |
| | | - Mount Elim Pontdawe Building Fund | -1,000.00 |
| | | - MEC Bryn y Groes | -800.00 |
| | | - Tearfund Turkey/Syria Earthquake | -606.00 |
| | | - Plas Lluest | -500.00 |
| | | - | |
| | | - | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2023 | -43,482.06 |
| | **97,841.35** | | **-97,841.35** |

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023**

## Mantolen Cyfrif Cadw

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2022 | 93,397.82 | | |
| O Cyfrif 1 | 300.00 | | |
| Llog | 204.35 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2023 | 93,902.17 |
| | **93,902.17** | | **93,902.17** |

## Mantolen Cyfrif Adeilad

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2022 | 14,871.51 | | |
| O Cyfrif 1 | 300.00 | | |
| Llog | 32.87 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2023 | 15,204.38 |
| | **15,204.38** | | **15,204.38** |

Archwiliwyd ac fe gafwyd yn gywir:

______________________________ _______________

2 Elizabeth Avenue
Buxton
SK17 7RB

27/12/2023

Dear Sirs

As requested, I have reviewed the accounts for the Eglwys Efengylaidd Aberystwyth for the period April 2022 – 31st March 2023. The accounts appear to be well kept and in good order.

Although I am not a qualified accountant or auditor I have a degree in Accounting and Finance and currently work in Financial Services.

I hope this is of assistance to you.

Yours sincerely

Katie Eastwood

# Accounts

*EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH*

**ADRODDIAD BLYNYDDOL, EBRILL 2021– MAWRTH 2022**

**1. Amcanion yr Eglwys**

(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn unol â Chyffes Ffydd yr Eglwys, er budd y cyhoedd yn bennaf ond nid yn unig yn Aberystwyth a'r cyffiniau.

(2) Amcanion elusennol eraill sydd, ym marn ymddiriedolwyr ac aelodau'r Eglwys, yn unol â gwaith yr Eglwys ac er budd y cyhoedd.

**2. Cyflawni'r amcanion**

Bu'n rhaid i'r Eglwys fynd i'r afael ag effeithiau Cofid-19 unwaith eto yn ystod 2021–22, ond serch hynny gwelwyd hefyd ddigon o arwyddion cadarnhaol a chalonogol. Llwyddwyd i gyflawni'r amcanion uchod yn ystod y flwyddyn, er y bu'n rhaid newid rhai o'r trefniadau ymarferol er mwyn mynd â'r maen i'r wal.

*(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol:*

A. Cyfarfodydd

Caewyd Canolfan Padarn, sef man cyfarfod yr Eglwys, ar ddechrau'r pandemig, ac roedd yn parhau i fod ar gau ddiwedd Mawrth 2022. Oherwydd cyfyngiadau Cofid-19 nid oedd yn bosibl cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ar ddechrau'r cyfnod, ond o dipyn i beth daeth cyfleoedd eto i gwrdd wyneb-yn-wyneb.

Trwy wahanol gyfryngau llwyddwyd i ddarparu amrywiaeth o oedfaon:

- Oedfaon ar y Sul, bore a hwyr, ar gyfer addoli, gweddïo, pregethu Efengyl Iesu Grist ac egluro neges y Beibl i bobl heddiw. Am rai misoedd ar ddechrau'r cyfnod roedd y rhain yn cael eu darlledu dros y we, ond ailddechreuwyd oedfa foreol ar 13 Mehefin 2021, yn Neuadd y Buarth. Gan nad Neuadd y Buarth ar gael gyda'r hwyr, ni fu'n bosibl cynnal oedfa hwyrol wyneb yn wyneb yno. O ganlyniad penderfynwyd symud yr oedfaon i Neuadd Llanfarian; cynhaliwyd oedfa foreol yno am y tro cyntaf ar 9 Ionawr 2022, ac oedfa hwyrol ar 6 Chwefror. Mae'r man cyfarfod newydd wedi bod yn dderbyniol iawn

gan bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys. Er bod y symud i oedfaon wyneb yn wyneb yn cael ei groesawu'n gyffredinol, parhawyd i'w darlledu dros y we er mwyn y rhai oedd yn methu bod yn bresennol a nifer o bobl o'r tu allan i gynulleidfa arferol yr Eglwys. Roedd cwrdd wyneb yn wyneb eto'n golygu dilyn argymhellion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys paratoi asesiad risg, gwisgo mygydau, darparu deunydd glanweithdra, gosod digon o fwlch rhwng y cadeiriau, a sicrhau awyru effeithiol. Penderfynwyd gofyn i bawb gofrestru ymlaen llaw cyn dod i'r oedfaon a'u stiwardio o fewn yr adeilad.

- Am ran o'r cyfnod cynhaliwyd ysgol Sul i'r plant dros y we.
- Llwyddwyd i weinyddu ordinhad Swper yr Arglwydd yn rhithiol, ac yna'n gyhoeddus wedi'r symud i Neuadd y Buarth.
- Bob nos Fawrth darlledwyd astudiaeth feiblaidd dros y we, ac yna cynhaliwyd cwrdd gweddi via Zoom.
- Cynhaliwyd oedfa wyneb yn wyneb gydag Eglwys Alfred Place ar fore Nadolig, ac oedfa dros y we, eto gydag Alfred Place, ddydd Gwener y Groglith. Wrth ddathlu'r Nadolig a'r Pasg defnyddiwyd gwefan yr Eglwys a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn darparu darlleniadau dyddiol ac eitemau eraill. Ar ben hynny, trefnwyd 'Llwybr y Nadolig', yn bennaf ar gyfer plant, ym Mhenrhyn-coch.

B. Gofal bugeiliol

Oherwydd y cyfyngiadau ar gwrdd wyneb yn wyneb, bu'n rhaid hepgor nifer o weithgareddau mwy cymdeithasol eu naws. Ceisiwyd ymdopi â'r her hon mewn nifer o ffyrdd:

- Trwy wasanaeth WhatsApp trefnwyd ffordd i bobl yr Eglwys gadw mewn cysylltiad â'i gilydd.
- Am rai misoedd ar ddechrau'r cyfnod cynhaliwyd sesiynau anffurfiol via Zoom – gan gynnwys 'ystafelloedd torri allan' – ar ôl oedfaon bore Sul er mwyn i bawb sgwrsio â'i gilydd. Felly hefyd wedi'r cwrdd gweddi ar nos Fawrth.
- Cynhaliwyd 'Noson Hwyl' yn gyson ar nos Iau er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r gynulleidfa fwynhau egwyl ysgafn yng nghwmni ei gilydd. Er nad oedd modd cynnal ein cyfarfodydd ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg, calondid oedd gweld nifer o'r dysgwyr yn ymuno â'r Noson Hwyl.

C. Cefnogaeth i waith yr Efengyl yn ehangach

- Gwahoddwyd pregethwyr o eglwysi eraill ledled Cymru i arwain oedfaon. Er nad oedd yn bosibl iddynt ddod yn gorfforol ar ddechrau'r

cyfnod dan sylw, roeddynt yn barod i recordio negeseuon i'w darlledu dros y we. Roedd eu parodrwydd yn hyn o beth yn gyfrwng i gefnogi a meithrin cysylltiadau â'r eglwysi hyn.

- Bu nifer o aelodau'r Eglwys yn pregethu mewn eglwysi eraill, wyneb yn wyneb a via Zoom.
- Cafwyd cydweithio cadarnhaol ag Eglwys Saesneg y Bedyddwyr Alfred Place, gan gynnwys nifer o oedfaon ar y cyd.
- Cefnogodd yr Eglwys waith cenhadon yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cymru | 2 |
| Ffrainc | 1 |
| Slofenia | 1 |
| Iwerddon | 1 |

  Cyfrannodd at gynhaliaeth y cenhadon hyn, a hefyd at gynhaliaeth dau berson sy'n ceisio cadw cysylltiad cyson â gwahanol wledydd er mwyn hybu'r Efengyl Gristnogol, y naill yn mentora arweinwyr eglwysi yn nwyrain Ewrop a'r llall yn ceisio cymodi pobloedd sydd wedi profi gwrthdaro ethnig. Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfle i siarad â nifer o'r cenhadon hyn dros y we er mwyn cael gwybod am eu gwaith a'u holi am eu cynlluniau i'r dyfodol.
- Oherwydd y cyfyngiadau ar gwrdd yn gyhoeddus, nid oedd yn ymarferol cynnal casgliadau ariannol i gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Efengyl Gristnogol yn gyffredinol. O ganlyniad, penderfynwyd dosbarthu arian o gyfrif cyfredol yr Eglwys i'r cyrff a ganlyn:

  European Mission Fellowship (gwaith yn Wcráin)
  Mudiad Efengylaidd Cymru (yr Eisteddfod Genedlaethol)
  Y Gorlan (yr Eisteddfod Genedlaethol)
  Eglwys Pontardawe (adeilad newydd)
  Canolfan Gristnogol Bryn-y-groes

*(2) Amcanion elusennol eraill*

Bu'n rhaid cwtogi ar nifer o weithgareddau elusennol eraill oherwydd gofynion y cyfnodau clo. Serch hynny,

- Parhawyd i noddi bachgen 13 oed yn Cenia, gan helpu darparu bwyd, addysg, a chymorth meddygol, trwy gyfrwng CompassionUK,
- Bu rhai o bobl yr Eglwys yn gyfrifol am ddarparu blychau Nadolig i'w hanfon at blant anghenus mewn gwledydd tramor.

- Llwyddwyd i ddarparu cyfarfodydd misol via Zoom i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Ar ben hynny, mae defnydd cyson o offer cyfieithu-ar-y-pryd yn oedfaon y Sul er mwyn y rhai nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg.

*(3) Materion eraill*

A. Strwythur

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, mae gan yr Eglwys strwythur syml ond effeithiol:

- Mae tri henuriad (gan gynnwys gweinidog yr Eglwys), sy'n anelu at gwrdd yn fisol i drafod materion sy'n ymwneud yn bennaf â bywyd ysbrydol yr Eglwys. Llwyddwyd i barhau i gynnal y cyfarfodydd hyn via Zoom.
- Mae hefyd ddau ddiacon, sy'n cwrdd â'r henuriaid yn fisol mewn Cwrdd Swyddogion er mwyn trafod agweddau mwy ymarferol ar fywyd a gwaith yr Eglwys. Eto cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn via Zoom.
- Cynhelir Cwrdd Eglwys nifer o weithiau mewn blwyddyn er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau drafod bywyd a gwaith yr Eglwys. Yn ystod y cyfnod dan sylw cynhaliwyd Cyrddau Eglwys via Zoom ar 13 Gorffennaf 2020, 28 Medi 2021, 23 Tachwedd 2021 (Cyfarfod Blynyddol), a 22 Mawrth 2022.
- Mae'r Cwrdd Swyddogion a'r Cwrdd Eglwys yn rhoi sylw manwl i sefyllfa ariannol yr Eglwys. Rhan o'u gwaith yw cymeradwyo'r cyfrifon ariannol, gan sicrhau fod y rhain wedi eu cadw'n foddhaol a bod arian wedi ei wario'n briodol yn unol ag amcanion yr Eglwys.
- Mae bwriad trefnu cwrs hyfforddi ynghylch diogelu plant a phobl ifainc, ond ni fu'n bosibl ei gynnal hyd yma oherwydd y cyfyngiadau.
- Er 8 Rhagfyr 2017 mae'r Eglwys wedi ei chofrestru'n elusen gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1176181). Yn unol â'r amodau o fod yn elusen, yr henuriaid a'r diaconiaid yw ymddiriedolwyr yr elusen.
- Mae gan yr Eglwys wefan swyddogol sy'n darparu gwybodaeth amdani a'i gweithgareddau (egefaber.org). I'r un diben mae ganddi hefyd gyfrif Trydar.

B. Cyhoeddiadau

- Ers Chwefror 2022 mae *Cwlwm* yn cael ei gyhoeddi ar ei newydd wedd, sef taflen fisol sy'n cynnwys neges gan yr henuriaid,

newyddion am yr Eglwys a'r bobl sy'n gysylltiedig â hi, a threfniadau pregethu. Fe'i ceir hefyd ar ffurf ddigidol.

- Oherwydd y cyfyngiadau clo ni fu'n bosibl argraffu cardiau i gyfleu cyfarchion Nadolig a rhoi gwybod am oedfaon Nadolig yr Eglwys. Serch hynny, llwyddwyd i ddosbarthu cardiau gwahodd yn ardal y Buarth.
- Dosbarthwyd copïau o *Holi* yn ardal Penrhyn-coch a mannau eraill adeg y Nadolig.

CH. Cloi

Bu rhywfaint o lanw a thrai o ran nifer y rhai sy'n gysylltiedig â'r Eglwys. Yn dilyn y cyfnod clo, mae ambell un o aelodau hŷn yr Eglwys wedi methu mynychu'r oedfaon cyhoeddus, ond darperir y rhain iddynt dros y we. Am resymau teuluol symudodd gŵr a gwraig a fu'n fawr eu cyfraniad i'r Eglwys o'r cychwyn cyntaf i Gaerdydd; gwelir eu heisiau, ond dymunwn fendith helaeth Duw arnynt. Bu farw un o aelodau'r Eglwys yn ystod y flwyddyn. Ar yr ochr arall gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu'r oedfaon, a disgwylir y daw rhai ohonynt yn aelodau o'r Eglwys yn y dyfodol agos. Roedd hefyd yn galondid sylwi ar nifer y rhai sy'n gwylio oedfaon yr Eglwys ar y we, gan gynnwys pobl nad ydynt yn arfer mynychu'r Eglwys fel y cyfryw.

Oherwydd y newidiadau yn nhrefniadau'r cyfyngiadau clo cododd nifer o heriau newydd yn ystod y flwyddyn, ond mae'r Eglwys wedi ymdrechu i gyflawni'r amcanion a nodir uchod, gan anelu at fod yn halen ac yn oleuni yn y gymuned. Daethpwyd i werthfawrogi o'r newydd bwysigrwydd cydaddoli, cymdeithasu wyneb yn wyneb, annog ein gilydd, a gofalu am y rhai unig ac anghenus. Profwyd llawer o anogaethau, a bu gwerthfawrogi cyffredinol o'r ddarpariaeth yn yr amgylchiadau anarferol.

Dymuna'r ymddiriedolwyr ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn anodd hon. Gallant dystio fod y cyfrifon i gyd yn gywir, a bod adnoddau ariannol yr Eglwys wedi eu defnyddio'n ddoeth ac yn gywir yn unol â'i hamcanion. Cymeradwyant weledigaeth yr Eglwys, ac edrychant ymlaen at hyrwyddo'i gwaith a'i thystiolaeth wrth i'r sefyllfa ddod fwyfwy yn ôl i'r arferol.

Llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr:

Derrick Adams 8 Tachwedd 2022

2 Elizabeth Avenue
Buxton
SK17 7RB

28/12/2022

Dear Sirs

As requested, I have reviewed the accounts for the Eglwys Efengylaidd Aberystwyth for the period April 2021 – 31st March 2022. The accounts appear to be well kept and in good order.

Although I am not a qualified accountant or auditor I have a degree in Accounting and Finance and currently work in Financial Services.

I hope this is of assistance to you.

Yours sincerely

Katie Eastwood

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022**

**Pob Cyfrif**

| **INCWM** | £ | **GWARIANT** | £ |
|---|---|---|---|
| Casgliadau Sul | 9,072.00 | Pregethu | -1,150.00 |
| Cylchgronau | 75.80 | Cylchgronau | -1,111.00 |
| Rhoddion Cymorth | 24,090.00 | Cyflog | -26,973.88 |
| Eraill (Banc) | 18,700.00 | Costau Derrick | -75.00 |
| Casgliadau Arbennig | 925.00 | Pensiwn | -3,889.29 |
| Ad-daliad | 13,450.68 | | |
| Llog (Cyfrif 3 a 4) | 10.76 | Cenhadon | |
| | | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| | | - Lois Adams | -400.00 |
| | | - Rhiannon Lloyd | -600.00 |
| | | - Mike Adams | -600.00 |
| | | - Emanuel & Esther Durand | -600.00 |
| | | - Dafydd Job | -600.00 |
| | | - Heledd Job | -1,200.00 |
| | | - CU Saesneg | -100.00 |
| | | Costau Cyson | |
| | | - Neuadd Buarth | -845.00 |
| | | - Defnydd Glanhau | -82.20 |
| | | - Compassion | -336.00 |
| | | - Yswiriant | -470.41 |
| | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -117.00 |
| | | Amrywiol | |
| | | - Technoleg | -187.45 |
| | | - Swper Diolchgarwch | 0.00 |
| | | - Amrywiol | -43.77 |
| | | - Cyfraniad Gwersyll | 0.00 |
| | | - Posteri a Chardiau | 0.00 |
| | | - Gweithgareddau Nadolig | -59.42 |
| | | - Cymun | -59.96 |
| | | Casgliadau Arbennig | |
| | | - Plas Lluest | -200.00 |
| | | - Keith a Rhiain | -925.00 |
| | **66,324.24** | | **-44,225.38** |

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022**

**Mantolen Cyfrif 1**

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2021 | 7,019.41 | | |
| Casgliadau Sul | 9,072.00 | Pregethu | -1,150.00 |
| Cylchgronau | 75.80 | Cylchgronau | -1,111.00 |
| Rhoddion Cymorth | 24,090.00 | Cyflog | -26,973.88 |
| Eraill (Banc) | 18,700.00 | Costau Derrick | -75.00 |
| Casgliadau Arbennig | 925.00 | Pensiwn | -3,889.29 |
| Ad-daliad | 13,450.68 | | |
| | | Cenhadon | |
| | | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| | | - Lois Adams | -400.00 |
| | | - Rhiannon Lloyd | -600.00 |
| | | - Mike Adams | -600.00 |
| | | - Emanuel & Esther Durand | -600.00 |
| | | - Dafydd Job | -600.00 |
| | | - Heledd Job | -1,200.00 |
| | | - CU Saesneg | -100.00 |
| | | Costau Cyson | |
| | | - Neuadd Buarth | -845.00 |
| | | - Cyfrif Adeilad | -300.00 |
| | | - Cyfrif Cadw | -300.00 |
| | | - Defnydd Glanhau | -82.20 |
| | | - Compassion | -336.00 |
| | | - Yswiriant | -470.41 |
| | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -117.00 |
| | | Amrywiol | |
| | | - Technoleg | -187.45 |
| | | - Swper Diolchgarwch | 0.00 |
| | | - Amrywiol | -43.77 |
| | | - Cyfraniad Gwersyll | 0.00 |
| | | - Posteri a Chardiau | 0.00 |
| | | - Gweithgareddau Nadolig | -59.42 |
| | | - Cymun | -59.96 |
| | | Casgliadau Arbennig | |
| | | - Plas Lluest | -200.00 |
| | | - Keith a Rhiain | -925.00 |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2022 | -28,507.51 |
| | **73,332.89** | | **-73,332.89** |

Archwiliwyd ac fe gafwyd yn gywir:

[signature] 28/12/22

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022**

## Mantolen Cyfrif Cadw

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2021 | 93,088.53 | | |
| O Cyfrif 1 | 300.00 | | |
| Llog | 9.29 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2022 | 93,397.82 |
| | **93,397.82** | | **93,397.82** |

## Mantolen Cyfrif Adeilad

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2021 | 14,570.04 | | |
| O Cyfrif 1 | 300.00 | | |
| Llog | 1.47 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2022 | 14,871.51 |
| | **14,871.51** | | **14,871.51** |

Archwiliwyd ac fe gafwyd yn gywir:

[signature] 28/12/22

2 Elizabeth Avenue
Buxton
SK17 7RB

28/12/2022

Dear Sirs

As requested, I have reviewed the accounts for the Eglwys Efengylaidd Aberystwyth for the period April 2021 – 31st March 2022. The accounts appear to be well kept and in good order.

Although I am not a qualified accountant or auditor I have a degree in Accounting and Finance and currently work in Financial Services.

I hope this is of assistance to you.

Yours sincerely

Katie Eastwood

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

## Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022

## Pob Cyfrif

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Casgliadau Sul | 9,072.00 | Pregethu | -1,150.00 |
| Cylchgronau | 75.80 | Cylchgronau | -1,111.00 |
| Rhoddion Cymorth | 24,090.00 | Cyflog | -26,973.88 |
| Eraill (Banc) | 18,700.00 | Costau Derrick | -75.00 |
| Casgliadau Arbennig | 925.00 | Pensiwn | -3,889.29 |
| Ad-daliad | 13,450.68 | | |
| Llog (Cyfrif 3 a 4) | 10.76 | Cenhadon | |
| | | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| | | - Lois Adams | -400.00 |
| | | - Rhiannon Lloyd | -600.00 |
| | | - Mike Adams | -600.00 |
| | | - Emanuel & Esther Durand | -600.00 |
| | | - Dafydd Job | -600.00 |
| | | - Heledd Job | -1,200.00 |
| | | - CU Saesneg | -100.00 |
| | | Costau Cyson | |
| | | - Neuadd Buarth | -845.00 |
| | | - Defnydd Glanhau | -82.20 |
| | | - Compassion | -336.00 |
| | | - Yswiriant | -470.41 |
| | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -117.00 |
| | | Amrywiol | |
| | | - Technoleg | -187.45 |
| | | - Swper Diolchgarwch | 0.00 |
| | | - Amrywiol | -43.77 |
| | | - Cyfraniad Gwersyll | 0.00 |
| | | - Posteri a Chardiau | 0.00 |
| | | - Gweithgareddau Nadolig | -59.42 |
| | | - Cymun | -59.96 |
| | | Casgliadau Arbennig | |
| | | - Plas Lluest | -200.00 |
| | | - Keith a Rhiain | -925.00 |
| | **66,324.24** | | **-44,225.38** |

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022**

**Mantolen Cyfrif 1**

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2021 | 7,019.41 | | |
| Casgliadau Sul | 9,072.00 | Pregethu | -1,150.00 |
| Cylchgronau | 75.80 | Cylchgronau | -1,111.00 |
| Rhoddion Cymorth | 24,090.00 | Cyflog | -26,973.88 |
| Eraill (Banc) | 18,700.00 | Costau Derrick | -75.00 |
| Casgliadau Arbennig | 925.00 | Pensiwn | -3,889.29 |
| Ad-daliad | 13,450.68 | | |
| | | Cenhadon | |
| | | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| | | - Lois Adams | -400.00 |
| | | - Rhiannon Lloyd | -600.00 |
| | | - Mike Adams | -600.00 |
| | | - Emanuel & Esther Durand | -600.00 |
| | | - Dafydd Job | -600.00 |
| | | - Heledd Job | -1,200.00 |
| | | - CU Saesneg | -100.00 |
| | | Costau Cyson | |
| | | - Neuadd Buarth | -845.00 |
| | | - Cyfrif Adeilad | -300.00 |
| | | - Cyfrif Cadw | -300.00 |
| | | - Defnydd Glanhau | -82.20 |
| | | - Compassion | -336.00 |
| | | - Yswiriant | -470.41 |
| | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -117.00 |
| | | Amrywiol | |
| | | - Technoleg | -187.45 |
| | | - Swper Diolchgarwch | 0.00 |
| | | - Amrywiol | -43.77 |
| | | - Cyfraniad Gwersyll | 0.00 |
| | | - Posteri a Chardiau | 0.00 |
| | | - Gweithgareddau Nadolig | -59.42 |
| | | - Cymun | -59.96 |
| | | Casgliadau Arbennig | |
| | | - Plas Lluest | -200.00 |
| | | - Keith a Rhiain | -925.00 |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2022 | -28,507.51 |
| | **73,332.89** | | **-73,332.89** |

Archwiliwyd ac fe gafwyd yn gywir:

[signature] 28/12/22

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022**

## Mantolen Cyfrif Cadw

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2021 | 93,088.53 | | |
| O Cyfrif 1 | 300.00 | | |
| Llog | 9.29 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2022 | 93,397.82 |
| | **93,397.82** | | **93,397.82** |

## Mantolen Cyfrif Adeilad

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2021 | 14,570.04 | | |
| O Cyfrif 1 | 300.00 | | |
| Llog | 1.47 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2022 | 14,871.51 |
| | **14,871.51** | | **14,871.51** |

Archwiliwyd ac fe gafwyd yn gywir:

K Dashwood 28/12/22

# Accounts

*EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH*

**ADRODDIAD BLYNYDDOL, EBRILL 2020– MAWRTH 2021**

## 1. Amcanion yr Eglwys

(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn unol â Chyffes Ffydd yr Eglwys, er budd y cyhoedd yn bennaf ond nid yn unig yn Aberystwyth a'r cyffiniau.

(2) Amcanion elusennol eraill sydd, ym marn ymddiriedolwyr ac aelodau'r Eglwys, yn unol â gwaith yr Eglwys ac er budd y cyhoedd.

## 2. Cyflawni'r amcanion

Effeithiodd cysgod Cofid-19 yn helaeth ar yr Eglwys yn ystod 2020–21. Gwnaed ymgais lew i gyflawni'r amcanion uchod yn ystod y flwyddyn, ond oherwydd y cyfyngiadau a'r cyfnodau clo bu'n rhaid addasu'r gweithgareddau'n sylweddol. Ar ddechrau'r pandemig caeodd Cyngor Sir Ceredigion Ganolfan Padarn, lle mae'r Eglwys yn cyfarfod, ac roedd yn dal ar gau ar ddiwedd Mawrth 2021. Ond er methu cwrdd wyneb-yn-wyneb, llwyddwyd i gyflwyno'r ddarpariaeth a ganlyn:

*(1) Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol:*

A. Cyfarfodydd

Gwaetha'r modd, oherwydd y cyfyngiadau bu'n rhaid rhoi'r gorau am y tro i nifer o gyfarfodydd yr Eglwys. Serch hynny, darparwyd amrywiaeth o oedfaon:

- Oedfaon ar y Sul, bore a hwyr, ar gyfer addoli, gweddïo, pregethu Efengyl Iesu Grist ac egluro neges y Beibl i bobl heddiw. Oherwydd y cyfyngiadau bu'n rhaid darlledu'r oedfaon hyn dros y we. Prynwyd camera arbennig er mwyn gwella safon y darllediadau hyn.
- Yn yr un modd cynhaliwyd ysgol Sul i'r plant dros y we.
- Yn achlysurol llwyddwyd i weinyddu ordinhad Swper yr Arglwydd yn rhithiol.
- Bob nos Fawrth darlledwyd astudiaeth feiblaidd dros y we, ac yna cynhaliwyd cwrdd gweddi via Zoom.
- Cynhaliwyd oedfaon arbennig dros y we i ddathlu'r Nadolig a'r Pasg. Yn achos y Nadolig defnyddiwyd gwefan yr Eglwys a'r cyfryngau

cymdeithasol er mwyn darparu eitemau ychwanegol yn gysylltiedig â'r Ŵyl..

B. Gofal bugeiliol

Oherwydd nad oedd modd i aelodau'r gynulleidfa gwrdd â'i gilydd wyneb yn wyneb, nid oedd dewis ond hepgor nifer o weithgareddau mwy cymdeithasol eu naws. Ceisiwyd ymdopi â'r her hon mewn nifer o ffyrdd:

- Trefnwyd bod yr aelodau sydd heb fynediad i'r we'n clywed yr oedfaon ar gryno ddisgiau.
- Rhannwyd aelodau'r gynulleidfa'n dri grŵp yn ôl eu lleoliad a'u hannog i gysylltu ag aelodau eraill o'r grŵp yn gyson.
- Sefydlwyd gwasanaeth Whatsapp er mwyn i bobl yr Eglwys gadw mewn cysylltiad â'i gilydd.
- Cynhaliwyd sesiynau anffurfiol via Zoom – gan gynnwys 'ystafelloedd torri allan' – ar ôl oedfaon bore Sul er mwyn i bawb sgwrsio â'i gilydd. Felly hefyd wedi'r cwrdd gweddi ar nos Fawrth.
- Trefnwyd Noson Hwyl ar nos Iau er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r gynulleidfa fwynhau egwyl ysgafn yng nghwmni ei gilydd. Er nad oedd modd cynnal ein cyfarfodydd ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg, calondid oedd gweld nifer o'r dysgwyr yn ymuno â'r Noson Hwyl.
- Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd o'r 'Ystafell Fyw' i'r bobl ifainc.
- Er mwyn rhoi cyfle i bawb fynegi barn, dosbarthwyd holiadur yn gofyn am eu hymateb i'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo ac am awgrymiadau ynghylch gwella'r ddarpariaeth hon. Roedd yr ymateb yn hynod gadarnhaol. Trafodwyd canlyniadau'r holiadur gan y swyddogion ac yn y Cwrdd Eglwys.
- Llwyddodd rhai o'r gwragedd i gynnal Clwb Crefft yn rhithiol.

C. Cefnogaeth i waith yr Efengyl yn ehangach

- Gwahoddwyd pregethwyr o eglwysi eraill ledled Cymru i arwain oedfaon. Er nad oedd yn bosibl iddynt ddod yn gorfforol, roeddynt i gyd yn barod i recordio negeseuon i'w darlledu dros y we. Roedd eu parodrwydd yn hyn o beth yn gyfrwng i gefnogi a meithrin cysylltiadau â'r eglwysi hyn.
- Bu nifer o aelodau'r Eglwys yn pregethu mewn eglwysi eraill, yn y corff a via Zoom.
- Cafwyd cydweithio cadarnhaol ag Eglwys Saesneg y Bedyddwyr Alfred Place, gan gynnwys nifer o oedfaon ar y cyd dros y we.

- O ganlyniad i ymatebion i'r holiadur (gweler uchod), trefnwyd bod y plant a'r bobl ifainc yn cael ymuno â'r ddarpariaeth a gynigir gan Eglwysi Efengylaidd Bangor a Chaerdydd.
- Cefnogodd yr Eglwys waith cenhadon yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cymru | 2 |
| Ffrainc | 1 |
| Slofenia | 1 |
| Yr Eidal | 1 |

  Cyfrannodd at gynhaliaeth y cenhadon hyn, a hefyd at gynhaliaeth dau berson sy'n ymdrechu i gadw cysylltiad cyson â gwahanol wledydd er mwyn hybu'r Efengyl Gristnogol, y naill yn mentora arweinwyr eglwysi yn nwyrain Ewrop a'r llall yn ceisio cymodi pobloedd sydd wedi profi gwrthdaro ethnig. Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfle i siarad â nifer o'r cenhadon hyn dros y we er mwyn cael gwybod am eu gwaith a'u holi am eu cynlluniau i'r dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfod dros y we hefyd gyda chynrychiolydd Cymreig Cymdeithas Gyfieithu Wycliffe.
  Gan fod taliadau i rai o'r cenhadon heb eu cynnwys yn y cyfrifon ariannol am 2019–20, fe'u cafwyd yn y cyfrifon am 2020–21, ynghyd â'r taliadau priodol am y flwyddyn hon.
- Er nad oedd yn bosibl cwrdd yn gyhoeddus, rhoddwyd arian ar gyfer casgliadau arbennig er mwyn cefnogi gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Efengyl Gristnogol yn gyffredinol. Dosbarthwyd yr arian hwn i'r cyrff a ganlyn:

  Canolfan Gristnogol Bryn-y-groes
  Cymdeithas Gofal Blythswood
  Cymdeithas Open Doors (Cristnogion dan erledigaeth)
  Cartref Gofal Plas Lluest
  Eglwys Efengylaidd Llanbedr Pont Steffan (costau adeilad newydd)

*(2) Amcanion elusennol eraill*

Fel yn achos nifer o agweddau eraill ar fywyd yr Eglwys, bu'n rhaid cwtogi'n sylweddol ar weithgareddau elusennol oherwydd cyfyngiadau'r cyfnodau clo. Serch hynny,

- Parhawyd i noddi bachgen 12 oed yn Cenia, gan helpu darparu bwyd, addysg, a chymorth meddygol, trwy gyfrwng CompassionUK,
- Pan ddaeth Cofid-19 i'r amlwg, darparwyd cardiau cynnig cymorth er mwyn i aelodau'r gynulleidfa fynegi eu parodrwydd i fod o gymwynas i'w cymdogion a'u cydnabod.

*(3) Materion eraill*

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, mae gan yr Eglwys strwythur syml ond effeithiol:

- Mae tri henuriad (gan gynnwys gweinidog yr Eglwys), sy'n anelu at gwrdd yn fisol i drafod materion sy'n ymwneud yn bennaf â bywyd ysbrydol yr Eglwys. Llwyddwyd i barhau i gynnal y cyfarfodydd hyn via Zoom.
- Mae hefyd ddau ddiacon, sy'n cwrdd â'r henuriaid yn fisol mewn Cwrdd Swyddogion er mwyn trafod agweddau mwy ymarferol ar fywyd a gwaith yr Eglwys. Eto cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn via Zoom.
- Cynhelir Cwrdd Eglwys nifer o weithiau mewn blwyddyn er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau drafod materion sy'n codi ynghylch bywyd a gwaith yr Eglwys. Yn ystod y cyfnod dan sylw cynhaliwyd Cyrddau Eglwys via Zoom ar 28 Gorffennaf 2020, 24 Tachwedd 2020 (Cyfarfod Blynyddol), a 23 Mawrth 2021.
- Mae'r Cwrdd Swyddogion a'r Cwrdd Eglwys yn rhoi sylw manwl i sefyllfa ariannol yr Eglwys. Rhan o'u gwaith yw cymeradwyo'r cyfrifon ariannol, gan sicrhau fod y rhain wedi eu cadw'n foddhaol a bod arian wedi ei wario'n ddoeth ac yn briodol yn unol ag amcanion yr Eglwys.
- Trafodwyd trefnu cwrs hyfforddi ynghylch diogelu plant a phobl ifainc, ond ni fu'n bosibl ei gynnal hyd yma oherwydd y cyfyngiadau.
- Er 8 Rhagfyr 2017 mae'r Eglwys wedi ei chofrestru'n elusen gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1176181). Yn unol â'r amodau o fod yn elusen, yr henuriaid a'r diaconiaid yw ymddiriedolwyr yr elusen.
- Mae gan yr Eglwys wefan swyddogol sy'n darparu gwybodaeth amdani a'i gweithgareddau (egefaber.org). Yn sgil y cyfyngiadau, cyflwynwyd gwelliannau i'r wefan, datblygwyd y ddarpariaeth arni, a dechreuwyd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

## 3. Diweddglo

Dyma'r flwyddyn fwyaf rhyfedd a heriol erioed yn hanes yr Eglwys. Ond er gwaethaf cyfyngiadau Cofid-19, mae'r Eglwys wedi ymdrechu i gyflawni'r

amcanion a nodir uchod, gan anelu at fod yn halen ac yn oleuni yn y gymuned. Gwelwyd cynnydd calonogol yn nifer y rhai sy'n gwylio oedfaon yr Eglwys ar y we, gan gynnwys pobl nad ydynt yn arfer mynychu'r Eglwys fel y cyfryw. Profwyd llawer o anogaethau, a bu gwerthfawrogi cyffredinol o'r ddarpariaeth yn yr amgylchiadau anarferol.

Dymuna'r ymddiriedolwyr ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r Eglwys am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn anodd hon. Gallant dystio fod y cyfrifon i gyd yn gywir, a bod adnoddau ariannol yr Eglwys wedi eu defnyddio'n ddoeth ac yn gywir yn unol â'i hamcanion. Cymeradwyant weledigaeth yr Eglwys, ac edrychant ymlaen at hyrwyddo'i gwaith a'i thystiolaeth yn y dyfodol, gan fawr obeithio y gellir dychwelyd i amgylchiadau mwy normal yn fuan.

Llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr:

Derrick Adams 9 Tachwedd 2021

2 Kerry Street,
Montgomery,
SY15 9PG

20/12/2021

Dear Sir

I reviewed the annual accounts for the Eglwys Efengylaidd Aberystwyth (1176181-0) this autumn (2021) as requested. The accounts are well kept and in good order. In many ways they are similar to the accounts produced for my own church.

I was the church treasurer of the similar church Eglwys Efengylaidd Ardudwy (1165697) for eight years, and although I am not a qualified accountant or auditor I have relevant practical experience in this sphere.

I hope this is of assistance to you.

Yours sincerely

A C Eastwood

Dr A C Eastwood

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021**

## Mantolen Cyfrif Cadw

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2019 | 72,754.66 | | |
| O Cyfrif 1 | 300.00 | | |
| O Cyfrif Adeilad | 20,000.00 | | |
| Llog | 33.87 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2020 | 93,088.53 |
| | **93,088.53** | | **93,088.53** |

## Mantolen Cyfrif Adeilad

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2019 | 14,262.94 | | |
| O Cyfrif 1 | 20,300.00 | I Cyfrif Cadw | 20,000.00 |
| Llog | 7.10 | | |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2020 | 14,570.04 |
| | **34,570.04** | | **34,570.04** |

Archwiliwyd ac fe gafwyd yn gywir:

A C Eastwood 20/12/2021

# EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

**Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021**

**Mantolen Cyfrif 1**

| INCWM | £ | GWARIANT | £ |
|---|---|---|---|
| Mewn Llaw 1 Ebrill 2020 | 13,598.77 | | |
| Casgliadau Sul | 1,279.49 | Pregethu | -700.00 |
| Cylchgronau | 243.20 | Cylchgronau | -1,589.40 |
| Rhoddion Cymorth | 23,888.00 | Cyflog | -21,658.18 |
| Eraill (Banc) | 37,070.00 | Costau Derrick | -7,110.00 |
| Casgliadau Arbennig | 1,112.00 | Pensiwn | -4,125.61 |
| Rhoddion Cymorth – Casgliadau Arbennig | 577.50 | | |
| Cyfrif Cadw | 0.00 | Cenhadon[1] | |
| Benthyciad Alfred Place | 800.00 | - Lydia Adams | -3,600.00 |
| Ad-daliad (oddi wrth Saron) | 720.00 | - Lois Adams | -1,200.00 |
| | | - Rhiannon Lloyd | -1,200.00 |
| | | - Mike Adams | -1,200.00 |
| | | - Emanuel & Esther Durand | -1,200.00 |
| | | - Dafydd Job | -1,200.00 |
| | | - Heledd Job | -1,200.00 |
| | | Costau Cyson | |
| | | - Cyfrif Adeilad[2] | -20,300.00 |
| | | - Cyfrif Cadw | -300.00 |
| | | - Compassion | -336.00 |
| | | - Yswiriant | -423.21 |
| | | - Technoleg (Zoom, CDs, etc) | -422.86 |
| | | - Hawlfraint cerddoriaeth | -101.33 |
| | | Amrywiol | |
| | | - Swper Gwyl Dewi | -13.08 |
| | | - Amrywiol | -252.50 |
| | | - Posteri a Chardiau | -84.97 |
| | | - Gweithgareddau Nadolig | -251.22 |
| | | - Camera ac offer recordio | -1,342.44 |
| | | Casgliadau Arbennig | |
| | | - Bryn-y-groes | -600.00 |
| | | - Eglwys Llanbed | -600.00 |
| | | - Blythswood | -200.00 |
| | | - Siwan Malawi | -112.00 |
| | | - Open Doors | -200.00 |
| | | - Plas Lluest | -746.75 |
| | | Mewn Llaw 31 Mawrth 2021 | -7,019.41 |
| | **79,288.96** | | **-79,288.96** |

1. I gyd yn dwbl y swm arferol achos gaethon nhw dim eu talu yn 2019-20.
2. Aeth £20,000 i cyfrif adeilad yn lle cyfrif cadw trwy gamgymeriad ac aeth wedyn i gyfrif cadw.

Archwiliwyd ac fe gafwyd yn gywir:

A C Eastwood 20 Dec 2021

2 Kerry Street,
Montgomery,
SY15 9PG

20/12/2021

Dear Sir

I reviewed the annual accounts for the Eglwys Efengylaidd Aberystwyth (1176181-0) this autumn (2021) as requested. The accounts are well kept and in good order. In many ways they are similar to the accounts produced for my own church.

I was the church treasurer of the similar church Eglwys Efengylaidd Ardudwy (1165697) for eight years, and although I am not a qualified accountant or auditor I have relevant practical experience in this sphere.

I hope this is of assistance to you.

Yours sincerely

A C Eastwood

Dr A C Eastwood